

Gwaith Sment Aberddawan Tarmac

Rydym yn awyddus i gefnogi busnesau lleol ac yn ddiweddar cawsom gyfle i ymweld â Gwaith Sment Aberddawan Tarmac. Roedd yn daith ddiddorol, gan roi golwg y tu ôl i'r llenni ar y broses o gynhyrchu sment. Un o'r uchafbwyntiau oedd gallu sefyll y tu mewn i'r ffwrnais tra roedd yn cael ei gynnal a chadw.

Fe wnaethom hefyd ddysgu am ymrwymiad Tarmac i gynaliadwyedd, gan gynnwys ei ddefnydd o danwydd sy'n deillio o wastraff fel teiars diwedd oes a rhai deunyddiau gwastraff plastig.

Y tu hwnt i'w weithrediadau, mae Tarmac yn cefnogi sefydliadau lleol a phrosiectau cymunedol trwy roddion a phartneriaethau. Mae eu cyllid yn canolbwyntio ar fentrau sy'n hyrwyddo addysg a datblygu sgiliau, gwella amgylcheddol, cynaliadwyedd, adfer a bioamrywiaeth.

Os gallai eich sefydliad neu fenter gymunedol elwa o gefnogaeth, cysylltwch â Tarmac i gael rhagor o wybodaeth yn aberthaw.feedback@tarmac.com